



COFIO ELLIS WYN

Tudalen 6



Y GANOLFAN I GAU

Tudalen 8



"POTENTIAL HAZARD"

Tudalen 13

ECO'r Wyddfa

Rhif: 408
Mawrth 2013
Pris: 50c

Ganol mis Chwefror daeth y newyddion gan Lywodraeth Cymru fod Llanberis i dderbyn £35,000 fel un o chwe chynllun Ardal Adfywio Môn-Menai. Mae'r arian yn dod yn sgil y llifogydd a achosodd gymaint o ddifrod i'r pentref yn ystod y gaeaf diwethaf.

Ond, mae angen gwario'r arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol, sef ddiwedd Mawrth. Nid yw hynny felly, yn rhoi fawr o amser ar gyfer cynllunio manwl, ond adroddodd y Cynghorydd Trefor Edwards wrth yr "Eco" fod gobaith cael ymestyn cyfnod y gwariant i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf.


Bydd cyfran o'r arian yn cael ei wario ar lanhau'r Stryd Fawr a'r strydoedd cyfochrog a ddioddefodd effeithiau'r llifogydd. Bydd arwyddion pentefol newydd yn cael eu gosod, a lleolir meinciau a chafnau blodau ar hyd y stryd

er mwyn ei gwneud yn fwy deniadol. Mae rhai o lwybrau troed Coed Doctor hefyd yn cael eu hadnewyddu, gan i'r rheini hefyd gael eu difrodi gan y llifogydd.

Bydd cyfran arall o'r arian yn cael ei ddefnyddio i farchnata'r pentref – yng Nghymru a thu hwnt i Glawdd Offa – er mwyn cadarnhau fod y pentref a'r ardal o gwmpas yn parhau yn un o'r llecynnau gorau i dreulio gwyliau byr neu estynedig ynddi.

Mae posibilrwydd hefyd y bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi pecyn cefnogol i fusnesau'r pentref, ond nid oes manylion llawn i'w cael hyd yma.

Arian i hybu a gwella Llanberis.



Cymunedau Cymraeg yn crebachu... ond bro'r "Eco" yn dal ei thir.

Roedd canlyniadau manwl Cyfrifiad 2011 yn cael eu cyhoeddi fel roedd yr "Eco" yn cael ei anfon i'r wasg y mis diwethaf. Dengys yr ystadegau fod y cadarnleoedd Cymreig yn crebachu, a bod gostyngiad sylweddol yn nifer y rhai sy'n gallu siarad yr iaith.

Yn ôl arbenigwyr astudio ieithoedd, y ffigwr allweddol ynglyn â pharhâd iaith yw 70%. Hynny yw, dylai 70% o boblogaeth unrhyw ardal fedru siarad yr iaith os yw'r iaith honno i barhau'n iaith fyw. Mae'r ystadegau ynglyn â'r iaith Gymraeg yn cael eu dadansoddi fesul uned etholiadol. Yn y flwyddyn 2001, roedd 59 o wardiau etholiadol yng Nghymru ble roedd 70% neu fwy o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Bryd hynny roedd y wardiau etholiadol hyn yn

ymestyn o'r gogledd orllewin i Geredigion a Chaerfyrddin. Yn 2011 gostyngodd nifer y wardiau i 49, a'r cyfan ohonynt yn siroedd Môn a Gwynedd (gydag un yng Nghonwy). Does dim un ward bellach yng Ngheredigion na Chaerfyrddin gyda 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.


Mae saith ward etholiadol o fewn bro'r "Eco". Roedd pob un o'r saith gyda phoblogaeth o dros 70% yn medru'r Gymraeg. A ward etholiadol Llanrug, gydag 87.8% oedd yr uchaf yng Nghymru, gyda ward Bethel (85.8%) yn dynn wrth ei sodlau. Gweddill wardiau'r fro oedd Waunfawr (75.8%), Llanberis (74.7%), Deiniolen (74.4%), Cwm y Glo (72.1%) a Phenisarwaun (70.6%).

Felly, er fod y Gymraeg yn dal ei thir yn arbennig o dda yn Llanrug a Bethel, mae'r

ystadegau am weddill y fro yn dangos faint o fygythiad sydd i'r iaith hyd yn oed yn yr ardaloedd

a ystyriwn yn gadarnleoedd, sef y pentrefi chwarelyddol traddodiadol.

Parhad ar dudalen 13



RHYBUDD



Unigolion diegwyddor yn chwilio am arian...

Cafwyd ar ddeall fod cartrefi yn ardal Llanrug a'r Ceunant wedi eu targedu gan unigolion yn cynnig gwneud gwaith clirio a garddio,

ond yn gofyn crochris afresymol am awr neu ddwy o waith cwbl anfodddhaol. Y cyfan sydd angen ei wneud mewn achosion o'r fath yw dweud 'dim diolch'. Mae'n llawer rhatach a llai trafferthus!



ECO'r Wyddfa

RHIF 408
Mawrth 2013

Angraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn
Ebrill

Copi i law
Mawrth 17eg

Plygu
Mawrth 28ain

Ble
Cwm y Glo

LLYTHYRAU

Uned 2-4, Parc Busnes Aberarad
Castell newydd Emlyn. SA38 9DB

Annwyl Olygydd

A oes gan eich darllenwyr brofiad o wasanaethau'r Samariaid y bydden nhw'n barod i'w rannu?

A oedd hi'n hawdd derbyn gwasanaeth yn Gymraeg neu a oedd rhwystrau? Pa effaith gafodd hynny arnyn nhw? A oedden nhw'n fodlon â'r gwasanaeth, neu a oes ganddyn nhw negeseuon am y ffordd y gellid gwella'r ddarpariaeth Gymraeg?

Dyma'r cwestiynau y mae Samariaid Cymru yn awyddus i gael atebion iddyn nhw ac maen nhw wedi comisiynu tîm o ymchwilwyr o Estyn Llaw i wneud y gwaith. Bwriad yr ymchwil yw i fwrw golwg ar y berthynas rhwng y Samariaid a siaradwyr Cymraeg.

Yma yn Estyn Llaw rydyn ni'n awyddus i siarad â phobl sydd wedi cysylltu â'r Samariaid neu deuluoedd iddynt a all ddweud wrthon ni sut brofiad gawson nhw, boed hynny'n ganmoliaeth neu'n gŵyn. I wybod mwy am yr ymchwil a sut i gymryd rhan, mae croeso mawr i ddarllenwyr gysylltu â Siwan Tomos o brosiect Estyn Llaw yn Iaith: Y Ganolfan Cynllunio Iaith ar 01239 711668 neu siwan.tomos@iaith.eu. Caiff pob cyswllt a chyfraniad eu trin yn hollol gyfrinachol.

Edrychaf ymlaen yn fawr at glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb i gymryd rhan, cyn dydd Gwener, Mawrth 15.

Yn gywir
Siwan Tomos
Rheolwr Prosiect

Annwyl Olygydd

Cyfle Gwych i Hyrwyddo eich Busnes

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar roi trefn ar Ddyddiaduron 2014 Y Lolfa. Mae'r Dyddiaduron yn cynnwys Cyfeiriadur defnyddiol o fusnesau a sefydliadau Cymreig. Os ydych am i'r Lolfa gynnwys gwybodaeth am gwmni neu gymdeithas newydd yn ein Cyfeiriadur neu os ydych am ddiweddarau neu ddileu gwybodaeth mae croeso i chi gysylltu â mi neu fynd i'r adran Cyfeiriadur Cymreig ar wefan Y Lolfa: <http://www.ylolfa.com/cyfeiriadur> Bydd, fel arfer, yna gyfle i hysbysebu tu mewn ac ar glawr y dyddiaduron A5, A4 a phoced Y Lolfa. Os am dderbyn taflen delerau mae croeso i chi e-bostiosonia@ylolfa.com neu fy ffonio ar 01970 832304.

Cau Llythyrdy Clwt-y-Bont.

Dymuna Javed a Shaeen Haq, Llythyrdy, Clwt-y-Bont, hysbysu pobl yr ardal a'r cyffiniau eu bod wedi cau y llythyrdy a'r siop oherwydd gwaeledd.

Maent yn dymuno cymryd y cyfle yma yn Yr Eco i ddiolch i'w cwsmeriaid a'u ffrindiau i gyd am eu cefnogaeth dros y 27 mlynedd diwethaf tra'n byw yng Nghlwt y Bont. Diolch o galon i bawb.

GAIR GANY GOLYGYDD

Ymddiheuriadau i bawb a fu'n niwrnod ganol mis Chwefror oherwydd gwaith gan BT yn uwchraddio llinellau. Roedd fy sustem gofnodi galwadau hefyd wedi llenwi fel nad

oedd yn bosibl gadael neges 'chwaith. Gan obeithio fod pawb wedi rhoi cynnig eilwaith (ac wedyn!), ac nad oes neb yn parhau heb fedru cysylltu!

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £13.50

- gwledydd Ewrop £33.50 - gwledydd eraill £42.50

Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

RHODDION

£20: Teulu Tros-y-Gros, Waunfawr.

£15 Er cof am Eurwyn Jones, 57 Maes Padarn, Llanberis

£10 Er cof am George Henry Roberts, Llanberis a Chaer; Miss Mair E. Foulkes, 3 Bryn Hyfryd, Penisarwaun; Mrs Phyllis Morris, Bryn Tirion, Deiniolen; Mrs Eirlys Sharpe, Ael y Bryn, Bethel; Margaret, Siân Nia, Mari, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen; T. Elwyn Griffith, Caeathro.

£5: Eirlys a'r teulu, Berllan, Llanrug; Hefin a Pam Hughes, Llys Myfyr, Deiniolen.

**Cefnogwch
ein
hysbysebwr**

YSGOL YRRU
ELIDIR
Driving School

Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo
gan yr ASG

07922121226

(01286) 882269

GWERS GYNTAF
2 AWR AM BRIS 1

Cyfarchion o Seland Newydd.



Dau o hogia yr ardal sef Marc Owen (Waunfawr) a Gwyn Jones (Llanrug) wedi dod draw i weithio ar Fferm Mount Linton ar Ynys y De, Seland Newydd. Wedi dod draw i Ynys y Gogledd ata i dros y Nadolig. Sion Greasly (Waunfawr) wedi dod am wylia at Marc am ychydig o wythnosau. Yr wyf i yn byw yma bellach ers bron i chwe mlynedd. Elfed Griffiths o Garndolbenmaen yw y bachgen arall, Mae o yn dod drosodd yma bob gaeaf ers tro i gneifio yn ardal Wanganui. Ond yma gyda mi y bydd o bob cyfle. Roedd y tywydd yn eithriadol o boeth yma dros y Nadolig felly


mi roedd rhaid i mi roi cyngor iddynt i yfed tipyn i “dorri syched”. Ni fu yn rhaid i mi weithio yn galed iawn i’w perswadio nhw. Mae Marc. Gwyn a Sion wedi dychwelyd gartref i’r eira bellach. Gobeithio bod y tywydd mawr wedi eich gadael, a cofion cynnes at bawb yn ardal yr Eco. Mae derbyn yr Eco ar y we bob mis yn ddiddorol dros ben. Diolch i griw yr Eco. Hwyl fawr Wil Davies

Enwogion Bro

Yn ystod y mis cynhaliwyd cyfarfod arbennig yn Neuadd Ogwen, Bethesda i lansio “Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen”, cyfrol wedi ei golygu gan J. Elwyn Hughes. Mae’r llyfryn yn cynnwys bywgraffiadau byr a lluniau pedwar ar ddeg o lenorion sy’n lleol i ddyffryn Ogwen ond yn enwau cenedlaethol hefyd. Darparwyd y llyfr i gyd-fynd â chynllun i osod côflechi ar gartrefi pob un o’r enwogion. Cyn gwireddu’r cynllun hwn, dim ond tair côflech oedd yn bod ar gartrefi enwogion dyffryn Ogwen, sef Brenda Chamberlain, Syr Ifor Williams ac R.S.Hughes.

Teg gofyn beth yw’r sefyllfa yn ein bro ni? Mae côflechi’n bod eisoes ar rai cartrefi: T.Rowland Hughes yn Llanberis; Dafydd Ddu Eryri yn y Waunfawr; H.R.Jones, Deiniolen; W.J.Gruffudd, Bethel a’r Archegob G.O.Williams, Penisarwaun.

Beth am weddill ein henwogion lleol/cenedlaethol? A dilyn patrwm dyffryn Ogwen, a chysidro enwogion llên yn unig, yna mae cryn lawer ‘ar goll’, a hawdd iawn fyddai enwi pedwar ar ddeg (a mwy) o rai haeddiannol i’w coffhau. Ni cheisiaf eu rhestru oll, ond gwahodd enwau ganddoch chi ddarllenwyr. Pa enwogion o’r fro hon sy’n haeddu eu cofio â chôflech ar eu cartref?



Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorfhwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLIWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

HWYLLIAU’N CODI

Yr actorion: Rhian Blythe, Carwyn Jones, Rhodri Sion, Mirain Haf Roberts, Gwion Aled Williams
Cyfarwyddwr: Betsan Llwyd
Cyfarwyddwr Cerdd: Catrin Edwards
Cynllunydd: Lois Prys

Yn ôl â ni mewn amser i Gyfnod Teyrnasiad yr hen Gwŷn Victoria, ac ymunwch â John, Robert, Richard Davies (a’i wraig Ann) - perchnogion cwmni llongau llewyrchus o Fôn - ynghyd â llu o gymeriadau isel ac amheus eraill! Roedd y cwmni’n gyfrifol am gludo cannoedd o Gymry, glo a nwyddau o bob math o Lerpwl a Llundain i bedwar ban byd, ac yn dychwelyd gyda sawl cargo - yn fwy penodol y giwano drewllyd o ynysoedd anghysbell arfordir Gorllewin De America. Ond roedd ochr arall i’r geiniog. Roedd y colledion ym mysg y llongau’n uchel, sawl un ohonynt yn diflannu am byth, a nifer o’r morwyr yn cael eu sgubo oddi ar y dec neu’n syrthio o’r rigin mewn tywydd enbyd.
UN O GYNYRCHIADAU CYNTAF CWMNI THEATR BARA CAWS ERIOED!

Clwb Bro Bethel Cyfarfu nifer dda o'r aelodau yn ddiweddar yn Festri Cysegr o dan lywyddiaeth y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Wrth groesawu pawb anfonwyd cofion at Margaret Hughes ac Eiriona Williams gan obeithio eu gweld wedi gwella ddigon da i ymuno â'r Clwb yn fuan iawn. Braf oedd cael datgan fod y Clwb wedi cael addewid o £187.47 yn dilyn casglu talebau WISH y Daily Post. Y siaradwr gwaddoeddy Parchedig Ganon Idris Thomas, Deiniolen, a chafwyd ganddo sgwrs hynod o ddiddorol yn olrhain hanes llaw feddyg chwarel Dinorwig a gafodd ei eni gant a hanner o flynyddoedd yn ôl i llynedd, sef y Dr. Robert Herbert Mills-Roberts. Yn ogystal â'i waith fel llaw feddyg cymerai ddiddordeb mawr mewn pêl-droed a bu'n ddigon da i chwarae fel Gôl-geidwad i Preston North End ac i Gymru. Fo hefyd sefydlodd Clwb Pêl-droed Llanberis. Diolchwyd i Idris Thomas am ei gyfraniad gan Glenys Griffiths ac hefyd i Gwyneth Williams a Myra Griffith am baratoi'r baned.

Merched y Wawr Cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen ar nos Fercher, 13 Chwefror 2013. Croesawodd y Llywydd, Glenys, aelodau o gangen Llanrug, a oedd wedi ymuno â ni i wrando ar sgwrs ddiddorol gan Mr Gwyn Llewelyn ar y testun 'Dynion Cwr y Coed'. Noddwyd yr anerchiad gan Llenyddiaeth Cymru. Diolchwyd i Mr Llewelyn gan Mrs. Mair Hughes, ar ran cangen Llanrug, a Mrs. Glenys Griffiths ar ran cangen Bethel. Enillwyr gwobrau'r raffl oedd Margaret Jones, Bet Owen, Jennifer Roberts, Margaret Druce, a Rita Williams. Dathlu Gŵyl Ddewi fydd y gangen mis nesaf, ar nos Fercher 13 Mawrth 2013, a bydd y bws yn gadael Capel Cysegr am 7:00 yr hwyr. **Llongyfarchiadau** i Iolo Gwyn Ellis, mab Gwynfor ac Ellen Ellis, Drws y Coed, Rhoslan, ar gwblhau ei arholiadau terfynol fel

Peiriannydd Sifil Siartredig. Mae Iolo yn gweithio i gwmni Peirianneg Sifil Arup yng Nghaerdydd ers chwe blynedd bellach.

Diolch Dymuna Eirlys Sharp, Ael y Bryn, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbynioddareiphen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Y Neuadd Goffa Bu dathlu mawr mewn cyfarfod diweddar o bwyllgor y Neuadd pan gyhoeddwyd fod y cais am grant i uwchraddio'r Neuadd wedi bod yn llwyddiannus.

Bydd y grant o bron i £300,000 yn cyllido cynllun i adeiladu estyniad, sef ystafell tu ôl i'r llwyfan, i ychwanegu at y toiledau, i drwsio'r to ac i osod nenfwd is. Gobeithir dechrau ar y gwaith yn fuan a'r gobaith ydi y bydd wedi ei gwblhau erbyn yr Hydref.

Oedfaon y Cysegr yn ystod mis Mawrth:

3: Y Parch Harri Parri

10: Y Gweinidog

17: Y Parch Dafydd Hughes

24: Y Gweinidog

31: Y Parch Alan W. Roberts

Y Gymdeithas Lenyddol

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Chwefror gan Lywydd y noson, sef Geraint Elis, a rhoddwyd croeso arbennig i'r Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda. Testun ei sgwrs oedd R. Williams Parry, un o Brifeirdd mawr yn hanes Cymru a bu'n hel atgofion, i gychwyn, o'r cyflwyniad cyntaf a gafodd i weithiau y Bardd. Yn ystod y ddarlith cawsom lu o ddyfyniadau gweithiau R. Williams Parry i ddangos dehongliad y Bardd o'i fro a natur ac yn y blaen, yn ogystal â dyfyniadau o waith nifer o feirdd eraill.

Wrth dalu gair o ddiolch, teimlai Mair Read i ni ddod i adnabod y dyn a'i brofiadau yn well, trwy gyfrwng ei weithiau. Bydd y cyfarfod nesaf yng nghwmni Gareth Haulfryn, a hynny nos Fawrth, Mawrth 19 eg yn Festri Bethel. Dymynwn gydnabod nawdd ariannol gan Llenyddiaeth Cymru.

Problemau Gor-yrruym Methel.

Yn dilyn arolwg gan yr heddlu ym mhentref Bethel yn ystod y mis a aeth heibio, daeth y canlyniad â chryn fraw a phryder i'r trigolion. Mae'r ardal o Erw Bian trwy'r pentref nes cyrraedd Ffordd Caernarfon â chyfyngiad o 30 milltir yr awr. Ond mewn arolwg gyrru a gynhaliwyd gan yr heddlu, darganfuwyd fod 10% o'r holl drafnidiaeth oedd yn teithio trwodd yn cyrraedd cyflymder o dros 40 m.y.a. Ac yr oedd hynny ar amseroedd prysur y bore pan oedd plant yn gorfod croesi'r ffordd er mwyn cyrraedd yr ysgol. Yn wir, darganfuwyd fod amryw o yrrwyr yn cyrraedd cyflymder o 60 m.y.a.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed o Ionawr 2013 fe benderfynwyd:

1. Yn dilyn trafodaeth gyda chynrychiolwyr o'r cwmni sy'n adeiladu tai ar safle'r hen ysgol ger Glyn Moelyn a chael sicrhad y byddent yn cadw i nifer o amodau a fydd yn cael eu cynnwys mewn dogfen gyfreithiol, cytunwyd i gael trafodaeth bellach gyda pheiriannydd annibynnol cyn penderfynu os am adael iddynt gysylltu'r draeniau gyda'r sustem garthffosiaeth drwy Gae Chwarae Pwllmoelyn.
2. Hysbysu'r Swyddog Llwybrau fod planhigyn yn tyfu ar hyd ochr y llwybr cyhoeddus ger parc Brynteg sydd yn lladd pob planhigyn arall.
3. Gwneud cais i Gartrefi Cymunedol Gwynedd wella'r cyfleusterau cegin Hafan Elan sydd yno a cadw mewn cof yr arian elusennol sydd ar gael i'r Cyngor gyfrannu tuag at hyn.
4. 'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol: Estyniad deulawr yn y cefn – Fferm Glan Seiont, Llanrug. Addasu llawr gwaelod y cyn gapel i uned breswyl – Capel Mawr, Llanrug.
5. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd ail beintio'r arwydd 'parcio anabl' yn maes parcio siop Premier.
6. Gofyn i'r Adran Priffyrdd pam bod angen palmant mor llydan ar dro Ffordd Glanffynnon o Ffordd Glanmoelyn. Roedd llawer o bobl yn taro olwynion eu ceir wrth geisio troi yno.
7. Rhoi cais i Gyngor Gwynedd am breisept o £23,500 am 2013-14 sef yr un faint ag eleni.
8. Cytunwyd i gysylltu gyda chlerc Ysgol Cwm y Glo er mwyn gweld a oedd llywodraethwyr presennol sydd yn gymwys i gynrychioli'r ardal ar y Cyngor Cymuned.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

5.30am-7.30pm

(Llun-Sadwrn)

5.30am-3pm(Sul)



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



Marwolaeth Yn dawel, ar ôl brwydro'n wrol yn yr ysbyty bu farw Ellis Wyn, Creigle, yng nghwmni ei deulu ar brynhawn Sadwrn y deuddegfed o Ionawr.

Ganed Ellis yn Neiniolen, ac yma y bu'n byw ar hyd ei oes. Roedd yn fab y diweddar John David ac Annie Williams ac yn frawd i Nansi a'r diweddar Mair ac Elsa. Bu'n wr ffyddlon i Margaret am 52 o flynyddoedd ac yn dad gofalus i Siân, Nia a Mari. Roedd yn ymfalchio yn llwyddiant ei wyrion a wyresau'n fawr iawn.

Un o hoelion wyth Deiniolen oedd Ellis Wyn ac yn ddyn ei filltir sgwâr o'i gorun i'w sawdl, yn gymeriad rhadlon, cymwynasgar, hoffus, yn dynnwr coes ac yn ffrind i bawb yn y pentref. Siaradai Ellis Wyn â phawb! Roedd yn un o gymeriadau mwyaf adnabyddus y pentref ac yn treulio'i ddyddiau yn cerdded hyd y llethrau yng nghwmni ei gyfeillion, yn arbennig John. Yn ddi-ffael, bob prynhawn am 3 o'r gloch byddai'n mynd am baned at ei gyfeillion yng nghaffi EB ar y stryd fawr a phawb yno yn eu dyblau'n aml iawn yn gwrandao ar Ellis Wyn yn adrodd ei straeon ac yn mynd trwy'i bethau. Roedd yn adroddwr straeon heb ei ail.

Heb os, ei ddiddordeb pennaf oedd y Band. Bu'n aelod ffyddlon yn chwarae'r corn tenor am flynyddoedd, cyn cael ei benodi'n llyfrgellydd. Treuliodd sawl oryd ddiffr yn y cwt band ac roedd gan ei gyd aelodau feddwl y byd ohono. Diolch o galon i'r band am eu cyfeillgarwch ac am gyfeilio yn yr angladd.

Ar y pumed ar hugain o Ionawr cafwyd gwasanaeth dan ofal y Canon Idris Thomas a'r Parchedig John Pritchard i gofio am Ellis Wyn yn Eglwys Crist Llandinorwig cyn ei roi i orffwys ym mynwent eglwys Llanddeiniolen.

Derbyniwyd £2,300 o bunnoedd er cof am Ellis a chyflwynodd Margaret, ei wraig, y siec i Dr Richard Williams er budd uned gofal dwys yn ysbyty'r galon a'r frest yn Lerpwl.

Dymuna'r teulu ddiolch o galon i'r meddygon a'r nyrsys yn Lerpwl am eu gofal diflino, trigolion bro'r Eco am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad diffuant, teulu a chyfeillion o bell ac agos, Dylan a Meinir Tros Waen am eu gwaith trylwyr a pharchus, a Dr Geraint Roberts a staff meddygfa Deiniolen a Llanberis am eu gofal.

Diolch Dymuna Mrs Phyllis Morris, Bryn Tirion, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr iawn i bawb a gofiodd amdani.

Y Gymdeithas Undebol Cynhaliwyd y Gymdeithas nos Lun, Ionawr 28 yn Nhŷ Elidir. Llywyddwyd y noson gan y Parch John Pritchard a chroesawyd Mr Cynrig Hughes, Pentir (Deiniolen gynt) a chafwyd noson ddiffr yn ei gwmni.

Dyddiaduron ei daid, sef y diweddar Ellis Hughes, Tai Caradog oedd ei bwnc. Fe ddarganfuwyd y dyddiaduron niferus ar ôl marwolaeth ei daid ym 1956. Chwarelwr a thyddynnwr yn byw yn Berthen Gron ydoedd a bu'n cadw dyddiadur am y rhan helaeth o'i oes ac yn cofnodi digwyddiadau cyffredin o ddydd i dydd.

Mae'n rhaid fod Ebrill 1945 wedi bod yn un oer oherwydd roedd Ellis Hughes wedi plannu tatws yn rhy gynnar ac wedi cael colled fawr. Roedd hefyd yn asiant i gatalog Kays! Chwarelwr ydoedd wrth ei waith bob dydd, wedi gadael yr ysgol yn 12 oed a mynd i'r chwarel i weithio mewn grŵp yn y twll. Cafodd ei anafu nifer o weithiau ond mae'n diolch hefyd am sawl dihangfa. Roedd yn byw i'w grefydd ac wedi darllen ei Feibl o leiaf chwe gwaith. Bu'n ysgrifennydd Capel Ebeneser am 50 mlynedd.

Ym mhob gwasanaeth arferai gofnodi testun y bregeth gan ychwanegu ei sylwadau ei hun.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Cynrig am noson ddiffr dros ben gan Mr John Ll. Williams.

Priodas Ar 10fed o Ionawr priodwyd Tracey, sydd yn yr Heddlu yn Llundain, merch Hefin a Pam Hughes, Llys Myfyr, yn America. Diwedd yr wythnos ganlynol bu'r wledd briodasol yn Leighton Buzzard, lle mae Tracey a'i gŵr, Steven Collins, sydd hefyd yn heddwas, wedi sefydlu. Daeth y teuluoedd a ffrindiau lu i ddathlu gan gynnwys llawer ffrind o'r pentref.

Dymuna Tracey ddiolch yn fawr i bawb am yr anrhegion a'r cardiau.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Peggy a George Anastassopoulos a fu'n dathlu eu Priodas Aur ar Chwefror 14. Magwyd Peggy (Williams neu Fleming) yn Green Terrace, Deiniolen, ac roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Cefnywaun. Anfonwn ein cofon cynnes at Peggy a George ac at eu merch, Angela.

Dymuna Javed a Shaeen Haq, Llythyrdy, Clwt-y-Bont, hysbysu pobl yr ardal a'r cyffiniau eu bod wedi cau y llythyrdy a'r siop oherwydd gwaeledd.

Maent yn dymuno cymryd y cyfle yma yn Yr Eco i ddiolch i'w cwsmeriaid a'u ffrindiau i gyd am eu cefnogaeth dros y 27 mlynedd diwethaf tra'n byw yng Nghlwt y Bont. Diolch o galon i bawb.

BYSUS RHIFLAS

Bysus bach amgylchedd aelodau'r ffordd
math o bob preifat a noson i'w rhannu
pantion i'w plan ac ati gwasanaeth
personol a thelora'r rheol-gam

D. P. OWENS RHIFLAS

(01248) 361044

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



“Digon ‘di digon.”

Anfodlonrwydd trigolion Deiniolen am gartref Y Noddfa.

Daeth bron i 150 o drigolion Deiniolen i festri Capel Ebenezer ar Nos Fercher 13 Chwefror i drafod y digwyddiad diweddar yn gysylltiedig â Chartref y Noddfa yn y pentref. Cadeirwyd y noson gan Alun Ffred Jones AC a hefyd yn bresennol roedd Elfed Williams (Cynghorydd Deiniolen a threfnydd y cyfarfod), Mr Arwel Owen (Rheolwr Y Noddfa) a Michael Couling ac Owen Taylor o'r Heddlu.

Agorwyd y cyfarfod gydag Elfed Williams yn pwysleisio bod trigolion Deiniolen wedi dioddef cryn dipyn o ymddygiad gwrth-gymdeithasol ers sefydlu Noddfa yn gartref i'r di-gartref. Y teimlad oedd fod yr amser wedi dod i ystyried ei newid i sefydliad a fyddai o fudd i'r pentref; cartref henoed er enghraifft.

Cytunodd Arwel Owen bod y digwyddiad erchyll diweddar yn hollol annerbyniol ond gan fod achos llys ar y gweill nid oedd yn gallu trafod yr achos yn fanwl. Ymddiheurodd i'r cyfarfod am yr achos diweddar. Dywedodd hefyd ei fod yn bryderus am y niwed mae'r digwyddiad wedi ei wneud i'r gymuned ac i staff Y Noddfa. Eglurodd fod Y Noddfa yn gysur i deuluoedd sydd wedi colli eu cartrefi ac i bobl sydd wedi dioddef o drais. Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i'w cartrefu.

Yn dilyn cafwyd sawl cwyn gan drigolion o'r pentref yn cynnwys enghreifftiau o bobl o'r Noddfa yn cymryd cyffuriau ar gaeau chwarae y pentref, a bod sawl digwyddiad wedi bod yn y gorffennol yn gysylltiedig â'r sefydliad. Hefyd, roedd sawl un yn bryderus ynglyn â sut roedd y Cyngor yn dewis pwy sydd yn cael eu danfon i'r cartref. Roedd yn amlwg fod gan rhai gefndiroedd treisiol iawn ac yn fygythiad i'r gymdeithas yn Neiniolen.

Roedd y gynulleidfa yn unfrydol yn eu dymuniad i gau Y Noddfa, ac eisoes mae petisiwn i'r perwyl hwnnw wedi ei gasglu sy'n cynnwys dros fil o lofnodion. Dywedodd y Cynghorydd Elfed Williams y bydd yn ymdrechu'n galed i sicrhau dymuniad y pentrefwyr. Addawodd Alun Ffred Jones AC ar ddiwedd y cyfarfod y byddai yntau hefyd yn dod â phryderon y pentrefwyr gerbron Cyngor Gwynedd.



LLWYDDIANT OFFERYNNOL I IEUENCTID Y BAND.

Dydd Sadwrn 9fed o Chwefror yn y Galeri yng Nghaernarfon cynhaliwyd Pencampwriaethau Unawdau,Deuawdau a Phedwarawdau Bandiau Pres Gogledd Cymru.Y ddau feirniad oedd dau amlwg ym myd y Bandiau Pres sef Steve-Pritchard Jones a Scott Lloyd ac roeddent yn canmol y safon uchel a glywsant.

Roedd mynd mawr ar y cystadlu drwy'r dydd a hyfryd o beth oedd gweld rhieni a ffrindiau yn cefnogi'r plant a'r ieuenctid.

Yr oedd nifer dda o Fand Ieuenctid Deiniolen yn cystadlu a ddaeth llwyddiant i ran Ela Williams (1af o Dan 10), Erin Williams (3ydd o Dan 10), Iago Davies (2il rhwng 12 ac 14), Deian ac Erin Williams (3ydd yn y ddeuawd dan 14), Deian Williams (2il dan 14), Richard Efans (2il dan 18), Iago, Jac, Lois, Rhys a Dafydd (1af yn y pumawd offerynnol dan 14), Jordan, Kyle, Shannon, Bethan ac Ela (2il yn y pumawd offerynnol o dan 14), Richard, Tomos, Deian, Jay a William (3ydd yn y pumawd offerynnol

dan 18), Urien Sion Huws (1af dros 18), Dylan Hughes, Dylan Williams, Urien, Osian a Lewys (1af yn grwp offerynnol agored).

Llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiant ac i bawb a gystadlodd. Diolch i Osian, Hefin, Llio ac Elin am hyfforddi'r ieuenctid ac i Lois am gyfeilio. Diolch iddynt am eu gwaith caled. Diolchir yn ogystal i Meirion am gyflwyno holl gystadlu'r dydd.

Eleni am y tro cyntaf cyflwynwyd Tlws i gofio am y diweddar Iwan Williams a fu farw mis Medi y llynedd yn 39 mlwydd oed.

Roedd Pencapwriaethau Gogledd Cymru yn agos iawn at ei galon a chystadlodd droeon ynddynt a beirniadu. Roedd Iwan ymysg y gorau ym Mhrydain yn ei faes, a'i fam Val ar ran ei phriod Alwyn a'r holl deulu gyflwynodd y tlws eleni am y tro cyntaf i'r chwarewr mwyaf addawaol tu allan i'r enillwyr yn adrannau 1 a 2.

Ar ddiwedd y cystadlu enillodd Deiniolen y wobr am y nifer mwyaf o farciau am y tro cyntaf er 1991.



FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau
“DOUBLE GLAZING”
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

CHIROPODYDD

GALWADAU I'R CARTREF

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

Cynlltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384





DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291



Y Ganolfan i gau?

Dyna'r newyddion ddaeth i sylw trigolion Dinorwig fel roedd yr "Eco" yn cael ei anfon i'r wasg. Yn ôl a ddeallwn, mae trafodaethau'n mynd ymlaen ynglyn â dyfodol Canolfan Dinorwig (sef yr hen ysgol), ers y llynedd, a'r bwriad gwreiddiol oedd trosglwyddo gofal yr adeilad i Menter Fachwen neu i'r gymuned leol. Nid yw Menter Fachwen mewn sefyllfa i fedru cymryd meddiant o'r adeilad, a byddai'r cyfrifoldeb ariannol am yr adeilad yn faich trwm iawn ar y gymuned leol. Gobeithiwn roi mwy o wybodaeth am y datblygiadau yn rhifyn nesaf yr "Eco".

NANT PERIS

Kate Pritchard (872331)
econantperis@hotmail.com



Llongyfarchiadau i Gwen Tomos o Nant Peris ac Irfon Williams o Deiniolen ar eu dyweddian yn ddiweddar. Dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol i'r ddau ohonoch. Bydd Meirion a Rhian Pritchard o Tŷ Isaf, Nant Peris, yn dathlu eu Priodas Aur ar y 2il o Fawrth eleni - dathliad go arbennig. Cofion cynnes iawn gan y teulu i gyd.

Trefn

Bu yr eira'n drwch ar ein mymryn gardd
am wythnos hir,
a'r adar yn crafu drwy'r gorchudd hardd
i bigo'r tir.

Daeth cawod o law a newidiwyd peth
o'r darlun syn...
tynnwyd y cwrlid - ac yno'n ddi feth
angylion gwyn!

Norman Closs

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch
ein
hysbysebwyd

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYBODAETH

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffeirymydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffau mewn
rhollau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN GIG: 075190 / 673188
Ffôn sêdul: 07798 718188
Gwefan: www.ydynteg.co.uk

P e n - b l w y d d

Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt sydd yn cartrefu ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 94 mlwydd oed yn ystod y mis. Mrs Thomas, heb fod yn rhy dda yn ystod y misoedd diwethaf ond rydym yn gobeithio eich bod yn gwella a'ch bod wedi gallu mwynhau eich diwrnod yng nghwmni eich plant a'r teulu oll.

Eira Cyntaf y Gaeaf Ar y 10fed o Ionawr gwelsom eira cynta'r gaeaf. Bu'n bwrw eira trwy'r dydd ac yn wynt cryf fel bod yr eira yn lluwchio i bob cornel. Yr ysgolion i gyd ar gau, dim bysys a dim yn cael y post tan y dydd Mercher canlynol. Yr oedd yn braf gweld cymaint o bobl o gwmpas, pawb yn cofio bod ganddynt ddwy droed. Carwn drwy gyfrwng yr Eco ddiolch i'r hogiau a ddaeth i lanhau'r eira imi, gan fod y lluwch i dop y drws cefn. Mawr ddiolch i Anthony, Huw ac Alwyn, a gobeithio na welwn rhyw lawer ohono yn ystod gweddill y gaeaf.

Marwolaeth Yn yr Eco y mis diwethaf, bu imi gyfeirio fod Mrs Nellie Williams, 2 Rhydfadog gynt, wedi cael damwain yn ei chartref ac wedi gorfod mynd i'r ysbyty. Yn anffodus, ar yr 22ain o Ionawr bu farw yn hollol annisgwyl yng Nghaernarfon yn 96 mlwydd oed. Gwraig dawel a hoffus iawn oedd Mrs Williams ac wedi bod yn aelod ffyddlon o Eglwys MC Dinorwig, lle bu ei diweddar

ŵr, O.R., yn flaenor am dros hanner can mlynedd. Yn ystod llynedd cafodd Mrs Williams brofedigaeth fawr iawn pryd y bu iddi golli ei hunig fab, Irfon, yn yr Wyddgrug. Yr oedd hyn yn andros o slap iddi ac yn siŵr ddigon ni ddaeth dros y brofedigaeth. Irfon oedd kannwyll ei llygaid.

Bu'r teulu yn garedig iawn wrthi yn ystod y misoedd diwethaf, yr oedd yn fam yng nghyfraith dyner i Ann, nain annwyl ac addfwyn i Aled a Meilir, a chwaer hynaf Griff, sydd yn byw yn Talysarn, ond ddim yn methu wythnos o ddod i gael te bach hefo hi, fel ag y byddai yn dweud.

Bu'r gwasanaeth claddu yn gyhoeddus yn Amlosgfa Bangor ddydd Llun, 4 Chwefror, o dan arweiniad y Canon Idris Thomas a'r Parch Alan Wyn Roberts, Dinorwig gynt.

Fel ardal yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr â'r teulu yn eu galar a'u colled. Boed ichwi gael Duw yn agos yn yr oriau tywyll yma. Pob Bendith.

Dymuna Javed a Shaeen Haq, Llythyrdy, Clwt-y-Bont, hysbysu pobl yr ardal a'r cyffiniau eu bod wedi cau y llythyrdy a'r siop oherwydd gwaeledd.

Maent yn dymuno cymryd y cyfle yma yn Yr Eco i ddiolch i'w cwsmeriaid a'u ffrindiau i gyd am eu cefnogaeth dros y 27 mlynedd diwethaf tra'n byw yng Nghlwt y Bont. Diolch o galon i bawb.

PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

**CANOL DYDD
A GYDA'R NOS**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig



I mi erioed, gwraig hynod ddiwylliedig oedd Nellie Williams;

Idris Thomas



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

PRIODASAU

**Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul**

Ffôn- 01286-870253
Mev-royalvictoria@legacy-hotels.co.uk



Cwmni Theatr Catspaw

Ar ddiwedd yr hanner tymor, a thrwy drefniant Cydlynnydd Bagloriaeth dan 16, Mrs Gwenno Bebb, cafwyd cyflwyniad cyfoes gan Theatr Catspaw. Sefydlwyd y cwmni yn 1996 gyda'r amcan o amlygu materion yn gysylltiedig â chamdriniaeth o fewn yr aelwyd. O'r holl ddigwyddiadau trais a/neu ymosodiadau rhywiol sydd wedi'u hadrodd i Heddlu Gogledd Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer sylweddol o'r achosion yn gysylltiedig â phobl ifanc rhwng 13 a 16 oed. Mae'r cynhyrchiad yn canolbwyntio ar sefyllfa gyda merch 15 oed a'i chariad 18 oed a beth sydd yn digwydd dros noson. Mae'r ferch yn dweud na roddodd ei chaniatâd iddynt gael rhyw, ond mae'r cariad yn dweud ei bod hi wedi ei roi. Mae'r gynulleidfa yn gweld yr olygfa o safbwynt y ferch a'r bachgen. Cafodd y disgyblion y cyfle i drafod beth ddigwyddodd ac i ymddwyn fel rheithgor anffurfiol i benderfynu ar y gwir. Ar hyd y ffordd mae realiti'r gyfraith a'r goblygiadau i'r rhai sydd yn rhan o hyn yn cael ei drafod a'i archwilio mewn manylder.

Blwyddyn 11 yn trafod dewis opsiynau

Yr oedd y 18fed Chwefror 2013 yn ddiwrnod pwysig i fyfyrwyr blwyddyn 11. Trefnwyd Cynhadledd Opsiynau gan Gydlynnydd Gyrfaedd, Mr Howyn P. Jones, a chyfle i'r myfyrwyr siarad gydag arbenigwyr mewn nifer o wahanol feysydd. Bu cynrychiolwyr o'r Fyddin, o'r Gwasanaeth Iechyd a Gofal, Coleg Menai, Sgiliau Adeiladu, Prentisiaethau, Y Llynges Frenhinol, a Gwasanaethau Cyhoeddus a Milwrol. Ac, wrth gwrs, fe roedd lle i drafod opsiynau o aros ym Mrynrefail a bwrw ymlaen gyda gwaith lefel A ac AS gyda Mr Arwyn Williams, Dirprwy Bennaeth a Mrs Sioned Roberts, Pennaeth y Chweched dosbarth yn cynrychioli Ysgol Brynrefail. Ac fe ddangosodd y myfyrwyr wir ddiddordeb i drafod y cam nesaf yn eu gyrfaedd mewn neuadd oedd yn fwrwm o drafod a diddordeb.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Gwasanaeth Coffa'r Holocaust

‘Goleuwn y gannwyll hon er cof am bawb a gollwyd drwy weithred ddynol. Fe'i goleuwn fel arwydd o'n bwriad i waredu tywyllwch lle bynnag y'i canfyddir ac o'n hymrwymiad i fyw ar gyfer sefydlu teyrnas nefoedd ar y ddaear.’

Bu coffau'r Holocaust trwy wasanaeth yn Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor ar ddiwedd Ionawr. Cynrychiolwyd Ysgol Brynrefail gan y Prif Ddisgyblion, Ffion Erin Williams a Gwen Thomas a gyd-ddarllenodd ‘Dyffrynnoedd Dagrau’ gan Menna Elfyn



Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Elain Siân Roberts, blwyddyn 13, a Llion Rees Hughes, Blwyddyn 13, yn derbyn eu tystysgrifau gan Mirain Roberts, Mantell Gwynedd.

Ymunodd Mirain â Mantell Gwynedd ddiwedd Ebrill 2007. Ei rôl yw hyrwyddo gwirfoddoli ymysg ieuenctid a rhoi gwybodaeth iddynt am y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael yng Ngwynedd.

Cafodd Elain ei chydabod am wirfoddoli 50 awr ym myd chwaraeon a Llion am iddo wirfoddoli 50 awr rhwng Menter Fachwen a W.R.V.S. yn Ysbyty Gwynedd. Y mae pawb ym Mrynrefail yn falch iawn o lwyddiant y ddau.



Ysbyty Calon Lerpwl

Fe gynigiodd Ysbyty Calon Lerpwl gyfle i ddisgyblion chweched dosbarth ysgolion Gogledd Cymru, Sir Gar a Gogledd Lloegr y siawns i ymuno â nhw am gyfnod o brofiad gwaith. Cawsant gannoedd o geisiadau a dewiswyd nifer ar gyfer cyfweiliadau. Ar ddiwedd y broses cynigwyd dau le i ddisgyblion o flwyddyn 12 Brynrefail, sef Elen Puw a Ffion Jones.

Mae'r ddwy yn awyddus i hyfforddi mewn cwrs meddygaeth mewn prifysgol ar ôl ymadael â Brynrefail a dyma gyfleu gwych iddynt flasau, o flaenllaw, ofynion gweithio ym myd ysbyty.

Llongyfarchiadau i'r ddwy ar eu llwyddiant



Gwirfoddolwr y Mileniwm

Elliw Haf Griffiths, blwyddyn 13, wedi derbyn ei thystysgrif gan Mirain Roberts, Mantell Gwynedd.

Ymunodd Mirain â Mantell Gwynedd ddiwedd Ebrill 2007. Ei rôl yw hyrwyddo gwirfoddoli ymysg ieuenctid a rhoi gwybodaeth iddynt am y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael yng Ngwynedd.

Cafodd Elliw ei chydabod am wirfoddoli 50 awr ym myd Ysgol Brynrefail ac hefyd Eisteddfod Llanrug. Y mae pawb ym Mrynrefail yn falch iawn o'i llwyddiant

Diolch Dymuna Mair Wyn, nith y diweddar Eurwyn Jones, 57 Maes Padarn, a'i gŵr, Arthur, ddiolch i gymdogion Eurwyn a thrigolion Llanberis am eu mynegiad o gydymdeimlad yn dilyn marwolaeth sydyn Eurwyn. Diolch hefyd i E.W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr ac i Gwynfor Williams am ei wasanaeth yn y Capel. Aeth y rhoddion a dderbyniwyd at yr achos yn Jerusalem.

George Henry Roberts

Yn dawel, yng Nghaer, ar y 4ydd o Chwefror 2013, yn 83 mlwydd oed, bu farw George Henry Roberts. Priod annwyl Elvira, tad cariadus Siân a Wynne, brawd hoff a ffrind Arfon ac Eifion. Yn dilyn Gwasanaeth Teuluol yn Amlosgfa Blaenon ar y 14eg o Chwefror, cafwyd Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghapel Cymraeg John Street, Caer.

Magwyd George gyda'i dri brawd yn Stryd Goodman ac yna symud i Maes Padarn. Soniai yn aml am ei fagwraeth bleserus yn Llanberis, fel aelod o'r côr lleol, trefnu triapiau glan môr pnawn Sul hefo Robin 'Wan Bach ac ymgymryd yn y gweithgareddau yng Nghapel Nant Padarn.

Wedi iddo gwblhau ei brentisied, fel ffitar yn y Chwael, fe ymunodd â'r Merchant Navy am naw mlynedd. Ar ôl gadael y môr, ymunodd â'r Cwmni Niwclear, yn Capenhurst, Sir Gaer, wedyn aeth i weithio gyda Vauxhall, yn Ellesmere Port, cyn dychwelyd i Capenhurst fel

peiriannydd yng Nghanolfan Ymchwil Y Bwrdd Trydan, lle y bu tan ei ymddeoliad.

Yn eu teyrnged, cyfeiriodd Y Parch Rhys Ab Ogwen Jones a'r Parch Tom Wright at George fel cymydog a chymwynaswr gweithgar, llawn hiwmor bob amser. Cyfeiriwyd hefyd at gyfraniad George at yr Aelwyd yng Nghaer ac am ei waith gyda phobl ifanc y capel.

Rhannwyd y rhoddion a dderbyniwyd rhwng Capel Cymraeg John Street a Hospice y Good Shepherd, Caer.

Cymdeithas Undebol Ar y 12fed o Chwefror cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Mr Eifion Roberts, Llanberis. Rhoddodd sgwrs ar, a dangosodd rai o luniau lleol gan y diweddar Geoff Charles, ffotograffydd Y Cymro. Diolch o galon i Eifion am baratoir noson. Llywyddwyd y noson gan y Parch John Pritchard a rhoddwyd y diolchiadau gan Miss Marion Davies. Cafwyd sgwrs a phaned ar y diwedd!

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar nos Fawrth, y 12fed o Mis Mawrth. Byddwn yn ymweld â 'CHANOLFAN UWCH GWYRFAL YNG NGHLYNNOG'. Gobeithiwn fod yno erbyn 6.30yh. Fe drefnir bws o Lanberis, manylion ynglŷn ag amser cychwyn i ddod. Cost mynediad yw £3. Enwau ac ymholiadau i Dilys Mai Roberts ar 01286 871758. Diolch yn fawr.

Un funud fach ...

Y DDAFAD DDU

Ers yr wythnos ddiwethaf mae modd gweld dros hanner miliwn o gofnodion troseddol o Gymru a Lloegr, o'r cyfnod rhwng 1770 a 1934, ar y rhyngwyd. Erbyn diwedd y flwyddyn, bydd dwy filiwn o gofnodion eraill tebyg wedi eu hychwanegu atynt. Ac wrth gyhoeddi'r newydd hwn, roedd y cyfryngau'n annog pobl i archwilio'r cofnodion er mwyn gweld pa droseddwy'r posibl a allai fod yn rhan o'u hachau. Fe'n hanogir, felly, i chwilio am y ddafad ddu o fewn y teulu!

'Oes yna droseddwr o fewn dy deulu?' holai pennawd un papur newydd wrth gyfeirio at y wefan y bydd y cofnodion i'w gweld arni. A'm hymateb greddfod oedd nad oes arnaf angen help yr un wefan i wybod am y ddafad ddu o fewn ein teulu ni, beth bynnag. A does dim rhaid i mi archwilio hen gofnodion er mwyn dod o hyd i'r ddafad honno chwaith. Oherwydd gwn yn iawn am y troseddwr hwnnw. Mae ei hanes wedi bod yn hysbys i mi ers blyneddau lawer. Ac oes, mae gen i syniad go lew hefyd am natur ei droseddau, er nad y cyfan o bell ffordd.

Ddwch chi ddim o hyd i hanes y troseddwr hwn yn y cofnodion a osodwyd ar y rhyngwyd yr wythnos ddiwethaf, am y rheswm syml nad oedd yn byw yn y cyfnod dan sylw. I gyfnod arall y mae hwn yn perthyn, diolch am hynny. Does gen i ddim bwriad i ddweud llawer am yr amrywiol bethau a wnaeth hwn dros y blyneddau i godi cywilydd arno'i hun a'i deulu a'i ffrindiau. Wna fi ddim manylu ar hyn o bryd, gan fod llawer i'w ddweud, wrth gwrs, dros beidio golchi dillad budron yn gyhoeddus.

Nid wyf am ruthro i adrodd ei stori. Mewn gwirionedd, rwyf wedi ceisio gofalu, ers blyneddau bellach, na ddaw pobl i wybod am ei fynych droseddau. Ac eto, gwn yn iawn y daw'r cyfan yn amlwg ryw ddydd pan gaiff yr holl droseddau eu datgelu. Afraid dweud nad wyf yn edrych ymlaen at y diwrnod y datgelir pob cofnod am droseddau'r gŵr arbennig hwn.

Ond y mae i mi un cysur mawr erbyn y dydd y datgelir troseddau dafad ddu ein teulu ni. 'Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder' (1 Ioan 1:9). A choeliwch fi, mae hynny'n newydd da i mi, ac i bob dafad ddu arall.

JOHN PRITCHARD

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE
Concern

AgeUK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.ffmpegia.com
Gwasanaeth Fframio Luniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Salwyn, Bob Perry, Keith Bowen, Keith Andrews

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



Blwch Postio Tan y Gaer.

Ychydig wythnosau cyn y Nadolig 2011 – ie, mae dros flwyddyn wedi mynd heibio – diflannodd blwch postio llythyrau Tan y Gaer. Rhoddwyd sylw i'r digwyddiad yn yr "Eco", gan ofyn yn hanner cellweirus sut byddai trigolion yr ardal yn medru anfon eu cyfarchion Nadolig.

Byth er hynny, bu gohebu gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, Alun Ffred Jones AC ac unigolion o'r ardal yn holi pa bryd y byddai'r blwch yn cael ei ail-leoli. Cyndyn iawn i drafod y mater fu'r Post Brenhinol, a bu'n rhaid cysylltu â Llais Defnyddwyr Cymru cyn derbyn ateb yn egluro'r sefyllfa.

Yn eu llythyr uniaith Saesneg o Gaerdydd adroddwyd fod y 'Tim Casglu' lleol wedi adrodd fod y polyn oedd yn dal y blwch wedi pydru, a phetai wedi ei adnewyddu, byddai'r blwch yn gwthio allan i'r ffordd gan greu "potential hazard" ar dro cyfyng. Doedd yr hen flwch, yn union yr un safle ddim yn gwneud dim byd tebyg mae'n rhaid!

Ceisiwyd caniatad i osod y blwch mewn man arall diogel, ond methwyd. Adroddwyd hefyd mai un neu ddau o eitemau yn ddyddiol oedd yn cael eu postio yno, ac felly daethpwyd i'r penderfyniad i beidio ei ail-leoli. Ond chwarae teg i'r Post Brenhinol rhoddwyd argymhellion i drigolion yr ardal i bostio ym Mhontrhythallt, yng Nghraig Dinas (Stabla) neu yn Rhes Arthur, Penisarwaun. Gyda llaw, doedd dim son am y "potential hazard" i'r trigolion a fyddai'n gorfod cerdded i'r tri lle hwn heb balmant ar hyd ffyrdd cul a phrysur.

Pwyllgor Neuadd Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr oedd 1. Ann Ifans, Sycharth; 2. Manon Glyn, Tawelfa.

Da deall fod nifer o aelodau newydd wedi ymaelodi â'r Clwb Cant – bydd hyn yn hwb sylweddol tuag at y gost o gynnal y Neuadd Gymuned. Y mae croeso cynnes i unrhyw un ymaelodi a hynny am 50c y mis, £6 y flwyddyn neu drwy Archeb Banc.

Bnawn Gwener, Mawrth 1af, am 2.00 o'r gloch cynhelir 'Te Bach Cymreig' i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Bydd cyfle i gael sgwrs dros baned a mwynhau gwrando ar eitemau gan blant yr ysgol a darlenniadau gan aelodau'r Pwyllgor. Tâl mynediad wrth y drws

Parhad: Cymunedau Cymraeg yn crebachu...ond bro'r "Eco" yn dal ei thir.

Erbyn 2021 tybed beth fydd canlyniadau Penisarwaun a Chwm y Glo, sydd eisoes yn agos at y canran critical?

Ers ei sefydlu bu'r "Eco" yn hybu darllen Cymraeg a chefnogi gweithgareddau Cymraeg o fewn y fro. Erbyn 2021 bydd y criw bychan sy'n gofalu am y papur wedi hen basio oed yr addewid, ac fel mae pethau ar hyn o bryd, does dim gwaed ifanc yn camu i'r bwlch. Ond mae gobaith... yn ystod y mis diwethaf bu trafod ynglyn â dod â'r "Eco" i'r byd modern, a manteisio ar ddatblygiadau megis y wê, facebook a trydar. Cafwyd cyfarfod ar y cyd â chynrychiolwyr papurau bro Lleu a Llais Ogwan, a chytunwyd i symud ymlaen i'r cyfeiriad hwn. Mae newyddiaduron 'cenedlaethol' bellach hefyd yn gweld gostyngiad yn eu gwerthiant, ac yn troi i faes newyddiaduraeth leol; a hynny yn digwydd trwy ddefnyddio'r cyfryngau newydd. Gan mai dyma yw cyfrwng cyfathrebu y genhedlaeth ifanc bellach, mae'n rhaid i'r "Eco" hefyd symud gyda'r oes er mwyn denu'r genhedlaeth iau i gyfrannu, a hynny yn Gymraeg.

Tybed ai dyma fydd y gobaith am barhad yr iaith o fewn ein bro?

**ECO'r
Wyddfa**

**Cefnogwch ein
hysbysebwr**

BOSCH Service
Car Service

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW **BOSCH Car Service**

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Mynydd Jiwbili.

Gofynnais yn y rhifyn diwethaf am ddyddiad adeiladu Tai Victoria, Deiniolen, gan dybio y byddai'r dyddiad yn help i geisio datrys y llun o goed Jiwbili ar lethrau Moel Rhiwen. O fewn ychydig ddyddiau i'r "Eco" ddod allan o'r wasg daeth pecyn o wybodaeth i mi gan Ann Lloyd, 10 Rhes Fictoria yn dangos fel y cafodd y tai eu hadeiladu ar ddau gyfnod. Llauer o ddiolch iddi am ymateb mor gyflym.

Adeiladwyd Rhes Fictoria ar ran o dir Pengolwg, a oedd yn eiddo i'r Faenol. Rhyw Mr John Evans, West Kirby a wnaeth gytundeb â G.W.D.Assheton Smith am y tir, a Henry Owen, Ebenezer yn gyfrifol am yr adeiladu. Arwyddwyd y cytundeb ar 12fed o Dachwedd 1889 gyda lês o 65 mlynedd. Roedd rhent o £7 i'w dalu bob blwyddyn – ar 12 Fai a'r 12fed o Dachwedd. Yr oedd angen i Henry Owen adeiladu pedwar o dai erbyn 12fed o Fai 1900. Y pedwar ty a gwblhawyd gyntaf oedd y pedwar agosaf at bentref Ebenezer a hynny ar gost o £500. Yn ôl y cytundeb roedd angen peintio'r tai bob pedair blynedd ar y tu allan a phob saith mlynedd ar y tu mewn.

Mae'n ymddangos hefyd fod Henry Owen wedi dod i gytundeb am fenthycia arian i gwblhau'r gwaith gyda Samuel Jones, Melin Glandinorwig

Ar yr 8fed Chwefror 1901 arwyddwyd cytundeb tebyg i adeiladu rhifau 5, 6 a 7 Rhes Fictoria ar gost o £450. Yna, ar 28ain Chwefror 1901 arwyddwyd cytundeb cyffelyb eto, gyda benthyciad o £190 ac ychwanegiad o £260 – i gyd yn arian Samuel Jones.

Mae'n ymddangos mai'r John Evans, West Kirby oedd wedi cael y tir ar lês, oherwydd mae ei enw'n ymddangos eto yn 1903 gyda dau berchennog arall, sef Thomas Williams a Hugh Humphreys, ond nid oes cyfeiriad iddynt na dim mwy o wybodaeth. Y cwbl a wyddom yw eu bod yn talu £1310 i Samuel Jones (cyfran o'r arian a gytunwyd gyda Henry Owen am adeiladu'r tai)

Mae mân gytundebau eraill rhwng y tri uchod yn dilyn, ac erbyn 1913 roedd rhywun o'r enw John Robert Hughes,

CHWILOTA



Penllechog, Llanaelhaearn yn ymddangos fel morgeisiwr. Mae'n ymddangos fod £1,000 yn parhau'n ddyledus, sef benthyciad a llogau. Daw'r dyddiad olaf yn Awst 1922 pan oedd John R. Hughes yn rhyddhau'r eiddo i John Evans.

Tybed beth ddigwyddodd pan ddaeth y lês i ben ar ôl chwe deg o flynyddoedd?

Yr hyn sy'n ddiddorol ynglyn â'r hanes yw pa mor ddylanwadol oedd y gwr busnes craff Samuel Jones, Glandinorwig yn natblygiad adeiladu tai yn y pentref.

Byddai'n ddiddorol cael gwybod pwy oedd Henry Owen yr adeiladydd a phwy oedd John Evans, West Kirby a'i gydberchnogion Thomas Williams a Hugh Humphreys. A thybed a oes unrhyw un yn gwybod sut y daeth gwr o Lanaelhaearn i mewn i'r potes?

Daeth llythyr hefyd gan Margaret Griffith, Cynfi, Deiniolen yn dweud fel yr arferai'r dyddiad 1900 fod ar dalcen Rhif 1, ac mai 'Bod Owain' oedd enw'r ty hwnnw am flynyddoedd. Mudodd ei thaid a'i nain i Rif 2 ym mis Medi 1900, sef William ac Isabella Ellis, gyda saith o blant. Yr ieuengaf oedd Nel, a fu'n byw yn y cartref am oes faith. Digon trist fu achos y symud i gartref newydd yn hanes y teulu, oherwydd bu Isabella farw yng Ngorffennaf 1902 ar enedigaeth merch a fu byw am chwe wythnos yn unig.

Ond i ddychwelyd at y llun o goed Jiwbili. Mae Gareth Roberts, Gallt y Foel yn amau dilysrwydd y llun. Creda mai llun cynnar o ardal Ebenezer ydyw a bod rhywun wedi marcio'r -LEE, y VR a'r dyddiad 1887 i mewn ar y llun o'i gof. Yn sicr, nid yw'r VR yn ymddangos ar unrhyw fap a welais i.

Trip i Lundain.

Rai misoedd yn ôl soniais fel yr aeth nifer o chwarelwyr i Lundain, a hynny ar draul Assheton Smith. Roedd perthynas i Fred Williams ar y trip hwnnw, sef Ffowc Jones, fferm Pen y Groes, Llanddeiniolen. Ganddo ef y cafodd Fred Williams wybodaeth am sut roedd y chwarelwyr yn teithio o amgylch y brifddinas. Roeddent yn rhannu eu hunain yn grwpiau ac yn dewis arweinydd. Byddai'r arweinydd wedyn yn cario ffon tua wyth troedfedd o hyd gyda lluman ar ei phen – a phawb yn dilyn! Dyna un dull o wneud yn siwr nad oedd rhai o'r criw yn colli eu ffordd yn gyfangwbl mewn lle mor fawr! Tybed beth feddyliai trigolion Llundain o'r grwpiau hyn yn cerdded o gwmpas yn dilyn dyn â ffon?

Pwy oedd Ieuan Peris?

Daeth galwad ffôn gan Ceri Foulkes, Deiniolen yn sôn am Ieuan Padarn, a oedd yn fab i'r Hen Gloddiwr, a fu'n gysylltiedig â Chapel Sardis, Dinorwig. A oedd dau fardd lleol felly wedi eu henwi ar ôl y llynnoedd?

Hen Adeiladau.

Y mis nesaf, ac yn y misoedd i ddilyn, y gobaith fydd cynnwys llun un o hen adfeilion y fro a holi am wybodaeth amdano. Mae'n syndod faint o adeiladau – tai a bythynod – sy'n prysur fynd yn ddim ond twmpathau o gerrig, a'r cof amdanynt yn pallu.

POSH PAWS 
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Blodau Racco
ALWYN & SARAH JONES
Ffôn: 870605
• Basoddi Pannigion
• Pannigion Gardd
• Basoddi Crag
• Heirow Compost a'r
• Werth
Ffôn: 01248 671382
WWW.RACCO.CO.UK

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
• **Pob math o ddodrefn i'w**
• **Cegin, stafell fyw, llofft**
• **Prisiau cystadleuol**
• **Corpedi, Llenni a Lloriau Pren**



CHWILOTA Parhad



Rowndiau Llefrith ardal Bethel.

Mae'r darlun am wahanol rowndiau llefrith cynnar yr ardal yn prysur lenwi. Y mis hwn daeth mwy o wybodaeth am ardal Bethel gan Fred Williams, sy'n son am wahanol werthwyr llefrith rhwng y 1930'au a'r 1950'au.

Roedd Evan Robert Jones tra'n ffermio Tyddyn Oer, gyda rownd lefrith ym Methel hyd 1935 pan symudodd y teulu o'r ardal i fyw yn Nhyddyn Cae, Pontrug. Roedd y llefrith yn cael ei gario ar fflôt yn cael ei thynnu gan ferlen o'r enw Mona.

Tua canol y 1930'au dechreuodd Morris Morris, fferm y Gwyndy werthu llefrith, a'i gario mewn crêts o boteli ar sêl ôl ac yn y bwt hen Austin Seven. Pan ddaeth cyfnod Morris Morris i ben, carwyd ymlaen â'r gwaith gan ei frawd, Sam Morris, Y Fachell. Tua'r un pryd, neu ychydig yn ddiweddarach, dechreuodd David Thomas, Tyddyn y Berth ar rownd lefrith, gan ddefnyddio Ford 8. Mae'r llun yn dangos perchennog rownd lefrith Tyddyn Berth. Fe'i hanfonwyd gan Ann Jones, o'r Talwrn, Môn, sy'n un o ddisgynyddion y teulu. Llauer o ddiolch am y llun cyntaf i'w anfon yn dangos un o'r gwerthwyr llefrith cynnar.

Mae Fred Williams hefyd yn cofio fflôt lefrith yn dod i Fethel o fferm Yr Erw, ac yr oedd Eurwyn Jones, fferm Greuor yn gwerthu llefrith yn ddiweddarach, nes i gwmni Caernarfon Dairies gymryd drosodd.

Yn y tridegau cynnar roedd ffermwr Llwyn Bedw yn gwerthu llefrith yn y Felinheli. Roedd yn cael ei gario mewn tanc o rhwng pumpa deg galwyn ar gefn fflôt yn cael ei thynnu gan ferlen. Bu'r ffermwr farw yn nhafarn y Gardd Fôn tra'n cael peint cyn cychwyn am adref. Digwyddodd hyn rywdro yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Roedd fflôt lefrith arall yn teithio o fferm Glanyrafon i dref Caernarfon yn ddyddiol, a pharhaodd y gwasanaeth hwnnw hyd ddiwedd y pedwardegau.

Llauer o ddiolch am gysylltu ac am anfon gwybodaeth am hanes y fro. Anfonwch unrhyw ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)

Cyfle i fod yn ran o 'Stori Gwynedd'

Mae Amgueddfa ac Oriel Gwynedd eisiau eich barn a'ch sylwadau chi ar brosiect cyffrous fydd yn trawsnewid yr amgueddfa er budd trigolion ar draws y sir.

Gwahoddir aelodau'r cyhoedd i roi eu mewnbwn i'r cynlluniau allai arwain at ddatblygu cartref newydd yr amgueddfa ac ar gyfer trawsnewid mynediad at dreftadaeth Gwynedd yn ystod tri sesiwn ymgynghori. Cynhelir y sesiynau yn ystod yr wythnos 18 - 22 Chwefror 2013 yn Nolgellau, Pwllheli a Bangor

Mae'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu gyda nawdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru yn cynnwys ail-leoli'r Amgueddfa ac Oriel bresennol i Blas yr Esgob (Neuadd y Dref) ym Mangor. Os yn llwyddiannus wrth ddenu cyllid o amryw ffynonellau bydd Plas yr Esgob yn cael ei adnewyddu i ddod yn amgueddfa ac oriel celf agored gyda mynediad i bawb. Bydd adnoddau addysgu ac oriel gelf ychwanegol yn rhan allweddol o'r cynlluniau yn ogystal â chyfleusterau gwell i ymwelwyr megis caffi a siop.

Dyweddodd y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar faterion treftadaeth:

'Dyma gyfle pwysig i drigolion Gwynedd ddweud eu barn wrth y tîm prosiect am yr hyn sy'n unigryw am dreftadaeth a diwylliant y sir.

'Mae gan "Stori Gwynedd" gymaint i'w gynnig i drigolion, cymunedau a busnesau ar draws y sir a bydd y prosiect unigryw a chyffrous yma yn ein galluogi i ddatblygu amgueddfa ac oriel fydd yn berthnasol i bawb yng Ngwynedd o Abergwyngregyn i Aberdyfi ac o Aberdaron i Aberangell.'

Erybydd canolbwynt yr amgueddfa ym Mangor, bwriad y prosiect ar gyfer gweddill y sir fydd sefydlu a datblygu rhwydwaith o safleoedd a chanolfannau treftadaeth a grwpiau cymunedol fydd yn cydweithio i adnabod, dehongli a hyrwyddo stori Gwynedd yn ei chyfanrwydd i bobl leol ac ymwelwyr ar draws y sir.

Yn ystod y sesiynau ymgynghori bydd aelodau o dîm prosiect Amgueddfa ac Oriel Gwynedd yn bresennol i sgwrsio am y prosiect ac i dderbyn unrhyw sylwadau a syniadau. Bydd pensaer o gwmni Atkins sydd yn ymgymryd â'r gwaith dylunio yn bresennol yn y digwyddiadau hefyd i esbonio eu cynllun ar gyfer yr adeilad ac i dderbyn adborth.

Bydd y sesiynau ymgynghori yn cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

- Llyfrgell Dolgellau – Dydd Llun, 18/2/2013 13.30 – 19:00 (Pensaer yn bresennol 16:00-18:00)

- Neuadd Dwyfor Pwllheli – Dydd Mercher, 20/2/2013 13.00 – 19:00 (Pensaer yn bresennol 16:00-18:00)

- Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Bangor – Dydd Iau, 21/2/2013 12.30 – 19.00 (Pensaer yn bresennol 16:00 – 18:00)

Bydd y cynlluniau hefyd i'w gweld yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd rhwng 9 Mawrth a 6 Ebrill 2013.

Gallwch hefyd ddweud eich dweud am brosiect trawsnewid Amgueddfa ac Oriel Gwynedd drwy gwblhau arolwg ar-lein. I gwblhau'r arolwg ac am gyfle i ennill £50 ewch i www.gwynedd.gov.uk/ymgyngori

grid⁷⁶

dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics

- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug **07766956673** gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

Ffrindia'
ymgyngori
- Rhwng eich ffydd mewn ffrind -

Oes gennych chi ychydig o oriau i'w sbario?
Ydych chi yn berson cymdeithasol?
Hoffech chi wneud gwahaniaeth?
Fedrwch chi gynnig cyfeillgarwch?

Mae **Ffrindia'** angen
Gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi
Unigolion dros 50 oed sydd angen
cwmniath.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch
gyda:
NIA HAF JONES
01286 685929
nia@mantellgwynedd.com

FINE ART
ORIEL
CWM
TRADE GUILD
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys



Plaid Cymru Ar nos Fercher, Mawrth 20fed, bydd yr arlunydd Gareth Owen yn rhoi sgwrs am fywyd ei dad, Ifor Owen, Llanuwchllyn. Mae croeso mawr i unrhyw un droi i mewn i'r Sefydliad Coffa, Llanrug am 7.30.

PLAID CYMRU LLANRUG A'R CYLCH

'CŴYS FY NHAD'

Sgwrs gan Gareth Owen yr arlunydd, am ei dad

Ifor Owen, Llanuwchllyn.

Nos Fercher 20fed o Fawrth

am 7.30p.m

Yn y Sefydliad Coffa, Llanrug

CROESO CYNNES IAWN I BAWB

Yr Ysgol Gynradd

Llongyfarchiadau i Catrin Jones [athrawes Blwyddyn 3] a Bryn ar enedigaeth eu mab bach digon o sioe, sef Owain Huw. Llongyfarchiadau calonnog i chi a phob hwyl ar y magu!

Bu Cameron Shaw [Blwyddyn 4] yn cymryd rhan yng Ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd, a phleser ydy cael cyhoeddi fod Cameron wedi dod yn drydydd yn ei ras. Llongyfarchiadau mawr iddo. Does neb wedi gwneud y gamp o gyrraedd y genedlaethol ers tro byd o Ysgol Gynradd Llanrug!

Bu genethod Blwyddyn 6 mewn yn cymryd rhan yn nhwrnamaint Pêl-rwyd Arfon. Daethant yn drydydd yn y twrnamaint. Llongyfarchiadau iddynt, a diolch i Mrs Rhian Whiteside Thomas am gynorthwyo gyda'r hyfforddi.

Daeth Dyfrig Evans a Catrin Mara i'r ysgol i ddarlennu ac actio llyfrau. Cafodd y plant fwynhad mawr o'r perfformiadau oedd yn dod â llyfrau a chymeriadau yn fyw iawn iddynt.

Pêl Bonws y Cylch Meithrin

Dyma'r enillwyr diweddaraf: Ionawr 26: Cheryl Jones, 7 Rhos Rhug (rhif 11); Chwefror 2: Helen Parry, Ceunant (rhif 39); Chwefror 9: Nan Humphries, Pant Bryngwyn (rhif 48); Chwefror 16: Y Cylch Meithrin (rhif 49).

Diolch i bawb sy'n cefnogi'r Cylch gyda'r bêl bonws. Mae £500 wedi ei gasglu ers canol Hydref ac mae'r cylch wedi ennill £63 gyda'u rhifau hwy yn ystod yr un cyfnod.

Llongyfarchiadau

Dymunwn longyfarch Dr Elin Dafydd Owen, Bryn Moelyn ar lwyddo mewn arholiadau MRCP (Member of Royal College of Physicians). Cafodd ei chyflwyno â'r anrhydedd yn Llundain yn ddiweddar. Ardderchog iawn Elin, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Croeso Adref Braf yw gweld Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, adref ar ôl bron i 3 mis yn yr ysbyty. Brysiwch wella.

Merched y Wawr Am 7.30 nos Fercher, Chwefror 13eg ar noson ddrycinog iawn, estynnwyd croeso twymgalon i aelodau Cangen Llanrug gan Glenys Griffith, Llywydd Cangen Bethel. Cychwynnwyd gyda Chên y Mudiad ac atgoffwyd aelodau'r gangen am Wyl y Pum Rhanbarth a gynhelir yn Ysgol Friars Bangor ar Sadwrn, Mai 11eg – enwau rhag blaen os gwelwch yn dda.

Gŵr gwadd y noson oedd Gwyn Llewelyn, wyneb a llais cyfarwydd i bawb ohonom. Gyda'i wreiddiau'n ddwfn yn nhir Môn, yma yn Arfon y cychwynnodd ei waith newyddiadurol fel gohebydd i'r North Wales Chronicle cyn symud ymlaen i waith teledu gyda rhaglenni gafaalgaf fel Heddiw, Hel Straeon a Gwyn ei Fyd.

Cawsom amryw o straeon diddorol am ei deithiau i'r gwahanol wledydd lle y cyfarfu â nifer o enwogion byd eang, ynghyd â chyfarfod Cymro neu Gymraes ar bob taith. Rydym

'yma o hyd' ac 'yma ymhob cwr o'r byd'. Difyr dros baned wedyn oedd rhannu profiadau am y Cymry, rhai yn enwog, a welwyd ar ein teithiau tramor ninnau. Diolchwyd i Gwyn Llewelyn am rannu ei brofiadau anturiaethol â ni gan Glenys Griffith. Ategodd Mair Huws, Llywydd Cangen Llanrug, ei diolch am noson gartrefol a difyr dros ben. Diolchir i Cangen Bethel am y croeso cynnes ac am y te amheuthun i gloi'r noson.

Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Tŷ Golchi, ar nos Fawrth, Mawrth 12fed. Pawb i fod yno erbyn 7.30 yr hwyr os gwelwch yn dda. Bydd bws yn cychwyn o Benisarwaun am 6:45.

Y Sefydliad Coffa Enillwyr Clwb Cant Mis Ionawr: 1. Linda Jones; 2. S. Williams, Glyn Afon; 3. Dilys Jones, 12 Hafan Elan.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Mis Chwefror; 1. Margaret Jones, 9 Afon Rhos; 2. Phyllis Ellis, Rhosfair, Penisarwaun.



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

BWYD ANIFEILIAID
BOCM • PAULS
GWAIR GWELLT a HAYLAGE
ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF
Ffôn **07748692100 • (01286) 660254**

GAREJ CERIS JONES
Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol
Llanrug 01286 677362 07979620996

GWYNANT PIERCE
Cynrychiol Goed:
Gatiau, Ffensus, ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon LLANRUG
Ffôn: **(01286) 674183**
(0589) 899901

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr Wyl lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Ciggedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!

Parhad LLANRUG

Mae'r Cylch Ti a Fi yn casglu enwau ar gyfer rhedeg yr un math o gynllun. Os dymunwch gael rhif (sy'n costio £1 yr wythnos) cysylltwch â Mrs. Enid Lloyd Jones, arweinydd y cylch. Maent yn cyfarfod ar bnawn dydd Mawrth ac ar fore Gwener yn festri Capel y Rhos

Ymddiheuriadau Wrth longyfarch Catrin a Bryn ar enedigaeth Owain Huw, gadawyd allan ei hen nain arall, sef Mrs Megan Jones, Afon Rhos. Mae'n ddrwg gennyf!

Diolchiadau Dymuna Eirlys a'r teulu, Berllan, ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am y caredigrwydd mawr a gawsant yn dilyn colli chwaer annwyl, sef Myfanwy yn Llundain. Diolch yn fawr.

Marwolaethau Ar Ionawr 20 bu farw Dafydd Davies, 5 Rhos Rug, yn 56 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn arw a'r teulu oll, ei wraig Irene a meibion annwyl, Jonathan a Jason. Hefyd Jacy, ei wyres a Lec, ei wŷr bach. Roedd Dafydd yn gymeriad adnabyddus yn y pentref ac adwaenid ef fel Dafydd Aerials. Bydd colled fawr ar ei ôl.

Hefyd, ar yr 8fed o Ionawr, bu farw Alwyn Roberts, 8 Bro Rhythallt. Gŵr annwyl Margaret, tad Karen a thaid a hen daid ffyddlon. Brodor o Rhyd-ddu ydoedd ond wedi byw yma yn Llanrug am flynyddoedd. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at y ddau deulu.

Capel y Rhos

Ddechrau mis Chwefror bedyddiwyd Llewelyn, mab Cheryl a Kevin a brawd bach Lili. Gweinyddwyd gan y Parch. Marcus Robinson y Gweinidog. Braff oedd gweld nifer o deulu a ffrindiau yn yr oedfa. Pob bendith ar y teulu bach.

Oedfaon Mawrth

Mawrth 3 – Y gweinidog a gweinyddir y Cymun
Mawrth 10 – Mr. Eurfryn Davies
Mawrth 17 – Dr. Huw Tegid Roberts
Mawrth 24 – Mrs. Susan Williams
Mawrth 31 – Sul y Pasg dan ofal y Parch.
Marcus Robinson, y Gweinidog

SWIGOD A SEBON **SYCHLANHAU**
Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio
54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

Am gymorth
cysylltwch â Mantell Gwynedd
01286 672626 neu 01341 422575

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Dim ond **£159*** y mis

Gyda

3

Blwyddyn o yswiriant
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i ddreifwyr
dros 21 oed!



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**



MOTION & EMOTION

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251
www.elimpeugeot.co.uk

* Prîs ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,553.73, 35 talliad misol o £159.00, cost credit a ffoedd £1,280.17 APR 6.6%. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Talliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddal £199.65. Tolerau ac amodau llawn ar gael yn y gair neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol. Y ffigurau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 - 34.9 (3.6 - 8.1), Extra Urban 88.2 - 62.8 (3.2 - 4.5), Combined 83.0 - 48.7 (3.4 - 5.8) a CO2 87 - 135

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Ionawr oedd: £30: Mr Haydn Jones, Rhandirmwyn; £20: Mrs E. Pierce, Bryngwyn; £10: Mr Lesley Williams, 4 Tŷ Hen,

Sefydliad y Merched Mewn cyfarfod o'r Sefydliad bnawn Iau, Chwefror 6ed, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Ms Melanie Phillips o Gaernarfon i siarad am y gwaith sy'n cael ei wneud gan 'Gisda'. Maent yn gofalu am a hyfforddi pobl ifanc o'r ardal sy'n ddigartref; yn trefnu iddynt gael rhannu tŷ yng Nghaernarfon o'r enw Hafan 1, a'u dysgu i fyw yn annibynnol. Yno hefyd maent yn dysgu cyfrifoldebau o dalu tâl gwasanaeth. Roedd dyn ifanc gyda Melanie ac adroddodd ef ei hanes. Cael ei wneud yn ddigartref oherwydd nad oedd ei deulu yn fodlon gyda'r ffordd yr oedd wedi ymddwyn trwy gael ei arestio am wneud pethau gwirion. Ar ôl treulio amser yn yr hostel, cafodd waith i wirfoddoli yng Nghaerdybi a chael hefyd lwyddiant ac achrediad OCN mewn Cyllidebau. Mae yn awr

yn byw mewn fflat un ystafell gan Tai Eryri. Erbyn hyn hefyd mae'n cael ei gyflogi gan 'Gisda' fel mentor Cyfoed/Gweithiwr Allweddol. Yn ogystal â hyn mae'n gwneud ei HVQ mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan weithwyr 'Gisda' yn ardderchog ac yn help mawr i bobl ifanc sydd mewn angen. Roedd yr holl aelodau yn edmygu'r gwaith oedd yn cael ei wneud yn y maes yma. Diolchwyd i Melanie gan y Llywydd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 7fed, pryd y byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda'r Dr H.L. Roberts fel gŵr gwadd. Croeso cynnes i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod ar y dydd Iau cyntaf o bob mis yn Festri Eglwys y Waun am 1.30 ypnawn.

Diolch i swyddogion Eglwys y Waun am eu caredigrwydd yn gadael inni wneud y gwaith o blygu rhifyn mis Chwefror o'r Eco yn y festri. Daeth criw da o'r hen ffyddloniaid a rhai newydd yno erbyn deg o'r gloch ac fe ddaeth y gwaith i ben cyn amser cinio. Diolch o galon i bawb ac i Marian Jones,

Trefnydd Bwndelu, am ddod atom mor fore.

Llongyfarchiadau i Siôn Ifan, Bryn Melyn, am lwyddo yn yr arholiad piano Gradd 2. Rwyd ti'n gwneud yn dda iawn, Siôn, ymlaen i Gradd 3 rŵan.

Baban Bach Newydd Llongyfarchiadau i Llinos a Llion, 10 Ael y Bryn ar enedigaeth mab, Alfie, brawd bach i Cayla.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Ceri Ann, Stad Dôl Erddi a fu'n dathlu cyrraedd ei deunaw oed yn ddiweddar.

Dymunwn wellhad buan i Delyth Lowe, Ger y Ffynnon a Sharon Lewis, Stad Tref Eilian, wedi iddynt gael llawdriniaeth yn yr ysbyty ym Mangor.

Cafodd Cadi bach, Stad Bro Waun, driniaeth i'w llaw yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl, a bu Caleb bach, Stad Ael-y-Bryn, yn cael triniaeth i'w law yn Ysbyty Gwynedd.

Bu Don Roberts, Sŵn-y-Gwynt a John Roberts, Pant Teg, yn derbyn profion yn yr ysbyty a cafodd Mrs Myra

Turner, Collwyn, anffawd yn ei chartref a thorri ei ffêr.

Anfonwn ein cofion cynnes atoch i gyd gan obeithio y byddwch yn gwella yn fuan.

Yn yr Ysbyty Cofiw'n yn gynnes hefyd at Mrs Alice Hughes, Stad Bryn Golau sydd yn yr ysbyty ym Mangor ac at Mrs Griffith, Gorffwysfa, yn Ysbyty Eryri.

Cydymdeimlo Wedi cystudd hir bu farw Mr Humphrey Roberts, Rhos Goch. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Beatrice, ac â Cyril, Annwen a John, ei blant.

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Mrs Katie Roberts, Derlwyn, a fu farw yn dawl yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlwn â Nansi Roberts, Stad Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

Diolch Dymuna Dr Williams, Laura, Gwyndaf a Gerallt ddiolch am bob cymorth a gawsant dros y chwe mis diwethaf tra bu Dr Williams yn ysbytai Gobowen ac Eryri.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Fe hoffwn i wneud yr un apêl â Nia Gruffudd, golygydd pentref Deiniolen, a gofyn ichi drigolion y Waun ddod â newyddion am eich gweithgareddau, llwyddiannau a dathliadau personol, a lluniau, i mi er mwyn eu cynnwys yn yr Eco.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYD LLANGLADDAU

CÔR MEIBION DINAS BANGOR

Mae'r Côr yn Hysbysebu am
ARWEINYDD

Am fwy o wybodaeth
Cysyllter â'r Ysgrifennydd-

MYFYR PARRY ar
01286 676512



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



Ar ben arall i'r lein

Dyma ni unwaith eto yn brysur rhoi'r gêr sgota wrth ei gilydd. 3ydd Mawrth yw'r dydd pan mae holl dywyllwch y gaeaf yn diflannu, ond eleni rwy'n edrych ymlaen tipyn yn fwy nac arfer am fy mod am ddilyn cyfarwyddyd â 'sgota'r Seiont a ysgrifennwyd dros 200 mlynedd yn ôl.

Rwyf wedi cyfeirio beth amser yn ôl at ddyddiadur a ddaeth i'r golwg drwy Archifdy Prifysgol Bangor, ac mae ein diolch fel cymdeithas yn fawr i'r archifydd, Mr. Einion Thomas, am dynnu fy sylw at y cynnwys. Dyddiadur yw wedi ei ysgrifennu yng nghefn llyfr 'Bowler - The Art of Angling'. Mae'r nodiadau hynod fanwl yn rhedeg o 1809 at 1824 a'r awdur oedd Robert Thomas, Erw. Y gwaith nesaf yw mynd i Archifdy Caernarfon i geisio cadarnhau pwy Erw, gan fod i mi wybod am bedair Erw yng nghyffiniau Bethel.

Gan fod rhan helaeth o'r ysgrif yn ymwneud â'r Seiont neu'r enw ar ddefnyddiwyd 200 mlynedd yn ôl, y Saint, - tipyn gwell enw na'r Seiont? - mae y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau yn ymwneud â physgota o Pontrug at Lyn Engan, sef Cae'r Glyddun, a adnabyddir heddiw fel Meithrinfa Seiont. Un peth sydd heb newid yw'r amser pan oedd yr eog yn niferus, sef diwedd Hydref, Tachwedd a dechrau Rhagfyr, a wyddoch chi be, fel yna mae hyd heddiw. Y gwahaniaeth mawr yw fod yr awdurdodau dros y blynyddoedd wedi bod yn chware a newid pethau at eu esmwythdra eu hunain, sef trin pob afon yr un fath. Dim ots fod eogiaid yn y Saint yn rhedeg yn ystod misoedd olaf y flwyddyn, mae'n rhaid dilyn yr un drefn a'r Ddyfrdwy, Wysg, Gwy a nifer o afonydd eraill, ble mae'r eogiaid yn niferus ar dechrau'r flwyddyn. Mae rhyw ymdrech i newid hyn ond yn anffodus mae bwganod yn dal i gael eu codi gan yr asiantaethau.

O ddiddordeb mawr yw'r plu sy'n cael eu defnyddio, mae cyfeiriad at Coch Fonddu, dyma'r cyfeiriad cyntaf am y bluen enwog Gymreig yma. Mae rhai wedi mynegi mai Hansard yn 1834 sy'n cyfeirio gyntaf at y bluen yma, ond mae'r dystiolaeth yn ein meddiant yn chwyldroi hyn, ac felly'n rhoi tipyn o enwogrwydd i Robert Thomas a'r Saint! Ond, mewn difri, ers faint o flynyddoedd cyn 1809 mae'r bluen yma wedi bod yn tynnu brithyll o ddyfroedd yr hen Sir, oes na unrhyw un yn gwybod?

Yn ogystal â Coch Fonddu mae cyfeiriadau at y Chwilen Redyn a nifer o blu eraill sydd yn dal ar ddefnydd. A do, rwyf wedi bod yn clodfori tipyn ar y dyddiadur 'ma, a pwy fuasai ddim, ond be sy'n galonogol yw'r diddordeb sydd yn cael ei godi mewn cawio'r plu cynhenid yma. Rwyf ar fin trefnu rhai i ddod at ei gilydd i gofnodi'r clymu a chadw ar gof yr hen etifeddiaeth yma.

Un o atyniadau pysgota'r ardal yw Llyn y Dywarchen, nid yn unig am safon pysgota brithyll yr enfys ond hefyd am aml i sgwrs sydd i'w chael ar fin nos gyda'r Tylwyth Teg, neu fel y cyfeirir atynt yn Rhyd Ddu 'Y Cyfryw Rai'. Mae'n rhaid dweud bod y sgwrs tipyn mwy difyr ar ôl rhyw ymweliad bach â'r Cwellyn Arms!



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Mae Dywarchen yn ei ffurf bresennol ers tua 1870, rai blynyddoedd wedyn fe estynnwyd y Llyn i Fwlch y Moch, cyflenwad dŵr i'r mwyngloddiau yn Nrws y Coed oedd y pwrpas. Erbyn heddiw mae Bwlch y Moch wedi diflannu, ond mae Dywarchen yn dal i fod yn hynod boblogaidd, nid yn unig gan bysgotwyr ond gan y cyhoedd yn gyffredinol oherwydd ei leoliad trawiadol.

Yn anffodus, nid yw popeth yn fêl i gyd ac, fel popeth arall, mae cost cynnal a chadw yn disgyn bob hyn a hyn. Y gost ddiweddaraf yw diogelwch yr argae. I gyflawni'r gwaith o bwyntio'r clawdd mae wedi bod yn angenrheidiol pwmpio allan dros hanner y dŵr, os cewch cyfle mae'n werth galw heibio i gael golygfa o rannau o waelod y llyn na ddaw byth eto i'r golwg o fewn ein hoes ni. I'r rhai na fedr galw draw, atodaf lun o ble roedd pysgod yn nofio rhyw gwta wythnos yn ôl. Mae'r hen Fili Dowcars neu Lanciau Llandudno, sut bynnag y mynnwch eu galw, yn cael gwledd annisgwyladwy.

Amcanir na fydd y gwaith yn amharu ar ddechrau'r tymor ar 1af Ebrill, ond efallai bydd rhaid gohirio'r stocio cyntaf am rhyw bythefnos er mwyn i lefel y dŵr godi'n sylweddol.

Yng nghyfarfod o Grŵp Pysgodfeydd Gwynedd ar 20 Chwefror yn Nhrawsfynydd fe gafwyd braslun o'r gwaith sydd i'w gysidro i greu man claddu newydd i'r torgochiaid ar Afon Hwch. Teimlad y gymdeithas ar hyn yw ei fod yn rhy ychydig ond, gobeithio, ddim yn rhy hwyr. Y ffordd ymlaen yn ein tyb i yw i edrych a yw'n bosib creu llawer mwy o o lefydd ychwanegol ar Afon Peris yn Nant. Efallai weithiau ein bod yn rhy feirniadol yn lle bod yn ddiolchgar am be sy'n cael ei gynnig. Ond rhaid cofio mae'r gymdeithas wedi rhoi rhybudd ar ôl rhybudd i'r asiantaethau am gyfnod o dros 20 mlynedd, a neb yn gwrando, Felly rwy'n teimlo ein bod yn llygad ein lle i ddal i chwyrnu fel ci gyda asgwrn.

Ar bwynt mwy positif, mae 20,000 o wyau eog a 15,000 o wyau torgoch yn neorfâr Asiantaeth yr Amgylchedd yn Nolgellau. Gyda 2,000 o wyau eog, 1,500 o leisiad yn barod i ddechrau eu siwrnai am y môr a 600 o frithyll brown yn ein deorfa yn Crawia. Dyma gyfle arbennig i rai o'r ysgolion cynradd, neu yn enwedig rhai sydd â'u bryd ar yrfa mewn bioleg neu bysgodfeydd, ddod i weld gwrth natur yn digwydd yma'n lleol.

Ar ôl deor bydd yr eogiaid bach unwaith eto yn cael eu rhyddhau i'r Arddu yng nghyffiniau Cwm Brwynog. Dyma'r drydedd blwyddyn i'r cynllun yma fod yn weithredol a dylid gweld ffrwyth y gwaith yn ystod 2014. A dyna hi am tro. Gobeithio at y mis nesaf y bydd rhyw frithyll neu ddau wedi canfod ei ffordd i'm padell ffrio.

Huw Price Hughes.

Chwaraeon

UN CAM ARALL

Efallai mai ail dîm Llanrug sydd â'r siawns gorau o gipio pencampwriaeth eleni, ond rhaid cael rhediad llwyddiannus tan ddiwedd y tymor. Mae'n agos o hyd rhwng Llanrug a Llanberis yn yr Alliance am dlws 'prif dîm bro'r Eco'. Bydd Waunfawr yn blês efo'u tymor cyntaf yng Nghynghrair Gwynedd a chyfle da i sefydlogi y tymor nesaf.

Ond mae Llanberis a Bethel yn llygadu ambell dlws. Mae Bethel wedi cyrraedd rownd gyn-derfynol Cwpan Intermediate yr Arfordir, wedi buddugoliaeth raenus wedi gêm galed yn erbyn Caergybi a benderfynwyd ar giciau o'r smotyn. A all hogia Cae Coed Bolyn ymuno â chlybiau eraill y dyffryn sydd wedi ennill y cwpan yma a'r Cwpan Iau. Tipyn o ddwbl. Parhau o hyd mae'r broblem o'r holl gemau mewn llaw yma sydd gan Bethel.

Cwpan Cookson fydd targed Llanberis, ond eu gwrthwynebwyr yn y rownd gyn-derfynol fydd y Cofis draw ar yr Oval. Tipyn o gêm. Tybed a yw enw Llanberis 'ar y gwpan' eleni? Rwy'n ffyddiog o sioc draw ar yr Oval.

Rhaid llongyfarch un tîm llwyddiannus y tymor yma. Drwy guro Porthaethwy mae tîm pêl-rwyd Llanrug wedi cipio Pencampwriaeth Adran 2 Cynghrair Penygroes a'r Cylch. Esgyn felly a chwilio i gryfhau'r garfan mae'n siŵr. Dyma gamp hynod o boblogaidd yn lleol ac rwy'n siŵr y buasai'r clybiau yn croesawu unrhyw chwaraewyr newydd draw i'w nosweithiau ymarfer.



Chwaraeon

COFIO 2: Y CODWR PWYSAU



Len Jones o Ddeiniolen yw gwrthrych y sgwrs y tro yma a diolch iddo, fel Twm John, am yr orig groesawgar ar yr aelwyd.

Dechreuodd diddordeb Len mewn codi pwysau yn ei ugeiniau cynnar, ac am reswm y mae llawer heddiw yn ceisio'r ateb iddo - stopio smocio! Penderfynodd Len a'i ffrind Keith, Cae Corniog, brynu ychydig o offer ymarfer. Daeth Albert Parry atynt ac yn sied oer Cae Corniog y datblygwyd y grefft. Roedd Len yn aelod o glwb Karate draw ym Mhorthaethwy hefyd. Lledaenodd y newyddion am y tri a'r gamp 'newydd' i'r ardal, ac ymhen dim roedd llawer o ieuenctid yr ardal yn dangos diddordeb. Ond, ble roeddent i ymarfer?

Cafwyd lle yn seler Ysgol Dinorwig, a golygfa gyffredin oedd gweld Len yn gyrru fan waith yn llawn o fechgyn yr ardal i'r nosweithiau ymarfer. Deuai rhai o bêl-droedwyr tîm iau Deiniolen yno hefyd ar gyfer sesiynau ffitrwydd. Nid oedd matiau, ond cafwyd ambell i hen fatras o gartrefi lleol. Diwedd sawl sesiwn yn y seler oedd siot am gôl a'r gôl-geidwad yn hyderus yn taflu ei

hun ar hyd y matresi. Roedd un goli da yn y dyddiau cynnar - David Brailsford! Eraill a fanteisiodd ar elfen cryfhau'r cyhyrau drwy godi pwysau oedd rhai o redwyr Clwb Rhedwyr Eryri.

O'r cyfleusterau 'cyntefig' yma llwyddodd y clwb i gynhyrchu sawl pencampwr Gogledd Cymru, er bygythiad clybiau cryfach eu rhif a'u cyfleusterau ym Mwcle, Yr Wyddgrug a Blaenau Ffestiniog. Yn fwy o gamp daeth 25 Pencampwriaeth Cymru i'r clwb. Un o'r sêr a ddenodd sylw Len oedd Kevin Walters o Ddeiniolen - Llanrug erbyn hyn. Yn amlwg, roedd gan Len ddawn fel Hyfforddwr Trwyddedig i danio parch yn y grefft a meithrin yr ysbryd cystadleuol hanfodol.

Un frawddeg fyddai'n bregeth gyson gan Len oedd, "Gwrandwch ar eich corff"- yr arwydd mewnol yna fyddai'n penderfynu os oedd 'liff' yn bosibl. Hawdd iawn fwasai anwybyddu a chreu anaf.

Ar wahân i'w waith ddiflino am rhyw 15 mlynedd gyda'r clwb roedd Len hefyd yn cystadlu yn unigol, fel arfer yn y categori pwysau 60Kg. Rhaid oedd aberthu i gadw at y pwysau

ar gyfer cystadlaethau. Rhan o'r disgyblaeth oedd y rhedeg dros fawndir 'y topia'. Ar lefel unigol roedd gan Len chwip o hyfforddwr, sef Ieuan Owen, y meistr a fynychodd gemau Olympaidd a Chymanwlad. Diolch i'w arweiniad cipiodd Len Bencampwriaeth y Gogledd 15 gwaith a Chymru 5 gwaith. Record anhygoel, ac yn rhifyn o'r Eco yn 1982 gwelir Len gyda'r tlws cenedlaethol wedi iddo ei ennill draw yn Llanelli. Cafodd drip i Stockholm gyda thîm Cymru mewn cystadleuaeth teir-gwlad: Cymru, Sweden a Norwy.

O ran uchafbwynt, cystadlodd hefyd yn nhair elfen y 'Power Lifting' - squat, bench press a'r dead lifft - ym Mhencampwriaeth y Byd draw yn Stone, yn ardal Stoke. Tipyn o gamp iddo orffen yn y seithfed safle.

Dyn ei filltir sgwâr fu Len ers iddo gyrraedd Deiniolen yn chwe mis oed o'i Garmel genedigol. Diolchwn iddo am ei gyfraniad mewn nifer o ffyrdd i roi ei ysgwydd dan y baich i gynnal a chefnogi'r ardal dros y blynyddoedd. Bydd nifer o'r cyn-aelodau yn cofio sawl noson chwyslyd a difyr yn y 'seler' rwy'n siŵr.

GWNEUD TIPYN O SBLASH!

Diolch byth, er sawl toriad miniog yng nghyllid ysgolion, y mae'r mwyafrif o blant yn dal i dderbyn gwersi nofio. Mae sawl elfen i feistrolîr gamp, o ffitrwydd i roddi hyder i fanteisio ar y môr sydd ar ein stepan drws. Trist felly yw clywed sibrydion am gau ambell ganolfan hamdden sy'n cynnwys pwll nofio. Gyda'r fath bwyslais gan Y Cynulliad at feithrin 'Cymru Iach' anodd credu y fath fygythiad. Dyw'r ddadl ddim yn 'dal dŵr' rywsut!

Ond cawn gystadlu hefyd. Yng nghystadleuaeth genedlaethol yr Urdd draw yng Nghaerdydd cipiwyd y fedal efydd yn y ras 50 metr dull rhydd gan Cameron Shaw, 8 oed o Ysgol Llanrug. Yng Nghala Ysgolion Arfon enillwyd y tlws i'r Ysgolion gyda llai na 70 disgybl gan Ysgol Bethel, gyda Ysgol Waunfawr yn ail. Yn y gystadleuaeth gyfatebol i ysgolion dros 85 disgybl daeth tîm Ysgol Llanrug yn ail. Llongyfarchiadau iddynt.

OES CAP AR-ALL I DDOD?



A'r Eco yn mynd i'w wely roedd pêl-droediwr o Fethel yn pacio ei fag ar gyfer gêm bwysig iawn yn erbyn tîm ieuenctid Stoke City. Hon fuasai'r gêm baratoi olaf i garfan genedlaethol -18 ysgolion Cymru. Wedi'r gêm hon bydd y garfan derfynol ar gyfer y gemau rhyngwladol yn erbyn Lloegr, Yr Alban ac Eire yn cael ei chyhoeddi. Amser cnoi ewinedd felly i Iolo Huws un o'r tri amddiffynnwr canol dan chwyddwydr y dewiswyr.

Eisoes curwyd Swindon (7-1) a Thîm Elite Cylch Llundain (4-0) a cholli 2-1 yn erbyn Ysgolion Annibynnol Lloegr. Yn amlwg o'r sgoriau mae amddiffyn go gadarn gan y Cymry.

Datblygodd Iolo drwy dimau ieuenctid Bethel ac Academi Dinas Bangor, ac erbyn hyn mae'n aelod rheolaidd o dimau -19 Bangor sy'n chwarae timau oedranol eraill y Gynghrair Genedlaethol, ac ail dîm Bangor yng Nghynghrair y Gogledd. Yn sicr mae chwarae'n rheolaidd ar faes carpedaidd Nantporth yn fantais. Mae mwy o bwyslais ar gefnwyr sy'n pasio'r bêl o'r cefn bellach yn hytrach na blaen troed i lawr y cae - er bod lle i hynny wrth gwrs ar brydiau! Mae Iolo hefyd wedi bod ymysg eilyddion Bangor ar gyfer dwy gêm yng Nghynghrair Cymru yn erbyn Prestatyn. Argoeli'n dda felly i un mor ifanc.

Mae Iolo yn aelod allweddol o dîm Ysgol Brynrefail fydd yn herio Penweddig neu Queensferry gartref yn rownd yr wyth olaf o Gwpan Cymru. Pob lwc iddynt.

Erbyn y rhifyn nesaf gobeithio y gallaf gyhoeddi fod Iolo wedi ennill ei gap ar Ddydd Gŵyl Dewi yn erbyn Lloegr ar faes Lincoln, ac yn edrych ymlaen i ail gap yn erbyn yr Alban ar Nantporth. Rwy'n siŵr y bydd carfan gref yno i'w gefnogi.

Tipyn o gamp hefyd i'w Ysgol fwasai cael cap arall i ddilyn Gruffydd John.